



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Canllawiau ar Ddigwyddiadau Hysbysu

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddyfarnu arian grant i sefydliadau er mwyn cyflawni ei pholisïau, os ydynt yn dangos eu bod yn rhoi gwerth am arian. Mae dyfarnu arian grant i sefydliadau yn arwain at gryn weithgarwch economaidd a chymdeithasol, ac yn darparu gwasanaethau penodol i'r cyhoedd yng Nghymru.

Unwaith y mae arian grant wedi'i ddyfarnu, mae o fantais i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob corff a ariennir yn parhau i gyflawni ei ymrwymadau. O ganlyniad, rhaid i bob corff a ariennir hysbysu Llywodraeth Cymru os yw rhai pethau penodol yn digwydd, neu'n debygol o ddigwydd. Gelwir y digwyddiadau hyn yn Ddigwyddiadau Hysbysu yn y llythyr dyfarnu y mae'r corff a ariennir wedi cytuno iddo.

Mae amgylchiadau'r rhan fwyaf o Ddigwyddiadau Hysbysu yn golygu bod modd eu datrys yn rhwydd ac yn syml unwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ohonynt, neu'n ymwybodol y gallant ddigwydd. Bydd swyddogion yn fodlon cydweithio â chorff a ariennir i ddod o hyd i ffordd briodol ymlaen, gan gynnig cymorth a chefnogaeth. Bwriad hyn yw caniatáu i'r gweithgareddau sy'n derbyn grant barhau (gyda rhai addasiadau, o bosibl). Anaml iawn y mae'n arwain at dynnu'r cyllid yn ôl.

Ond os na roddir gwybod i Lywodraeth Cymru fod Digwyddiad Hysbysu wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd, neu os nad yw'r corff a ariennir yn fodlon rhoi mesurau ar waith i gywiro'r sefyllfa, bydd swyddogion yn cynnal ymchwiliad trylwyr. Gallai'r ymchwiliad hwn arwain at ddod â'r gweithgarwch a ariennir i ben, at roi'r gorau i'w ariannu, neu hyd yn oed at adennill yr arian. **Ni ellir gorbwysleisio y dylai cyrff a ariennir roi gwybod i Lywodraeth Cymru ar unwaith os ceir unrhyw Ddigwyddiad Hysbysu.**

Yr hyn y dylai'r cyrff a ariennir ei wneud

Fel corff a ariennir, rydych yn gyfrifol am roi gwybod i Lywodraeth Cymru ar unwaith os ceir Digwyddiad Hysbysu, neu os yw'n debygol o ddigwydd, gan ddilyn y broses a ddisgrifir yn yr adran "Sut i roi gwybod i Lywodraeth Cymru" isod. Er y bydd Digwyddiadau Hysbysu yn benodol i bob dyfarniad unigol, ac yn cael eu disgrifio yn y dogfennau dyfarnu, byddant fel rheol yn cynnwys y canlynol:

- Unrhyw risg na fyddwch yn parhau i weithredu neu y byddwch yn rhoi'r gorau i weithredu rhan helaeth o'ch busnes neu eich busnes i gyd, neu unrhyw risg a allai effeithio'n andwyol ar eich gallu i gyflawni a chydymffurfio ag amodau'r dyfarniad;
- Unrhyw newidiadau yn eich cyfansoddiad, eich statws, eich rheolaeth, eich perchenogaeth, eich rhanddeiliaid, eich cyfarwyddwyr, eich ymddiriedolwyr neu eich partneriaid, neu os bydd eich Archwilydd yn ymddiswyddo;
- Unrhyw newidiadau yn eich pŵer neu eich gallu i gyflawni'r gweithgarwch a ariennir, neu i gydymffurfio ag amodau'r dyfarniad.

Sut i roi gwybod i Lywodraeth Cymru

Gallwch ffonio'r swyddog yn Llywodraeth Cymru a enwir yn rhan tri'r llythyr dyfarnu yn y lle cyntaf. Ond yna rhaid ichi gadarnhau hyn drwy anfon llythyr ar unwaith at yr un swyddog yn Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r cadarnhad hwn gynnwys unrhyw gefndir i'r Digwyddiad Hysbysu ac unrhyw gamau y bwriadwch eu cymryd i ddatrys y sefyllfa.

Yr hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud

Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- rhoi gwybod ichi os yw'r swyddogion yn credu bod Digwyddiad Hysbysu wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd, ac nad ydych eisoes wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru;
- ceisio trafod y Digwyddiad Hysbysu â chi a chytuno ar gamau i'w cymryd i ddelio â'r Digwyddiad Hysbysu;
- ystyried pob Digwyddiad Hysbysu yn unigol, gan bwysu a mesur arwyddocâd/difrifoldeb y digwyddiad ac a ellir cywiro'r sefyllfa ai peidio;
- rhoi hysbysiad ysgrifenedig ichi o unrhyw gamau y bydd angen ichi eu cymryd.

Canlyniadau rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru

Os byddwch yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru fod Digwyddiad Hysbysu wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i lunio mesurau derbyniol, ac mae'n annhebygol y bydd effaith andwyol ar y cyllid.

Ond os na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu cysylltu â chi i drafod Digwyddiad Hysbysu; neu os nad ydych yn fodlon helpu i roi'r mesurau y cytunir arnynt ar waith; neu os na ellir datrys y sefyllfa i raddau sy'n bodloni Llywodraeth Cymru, gallai hynny arwain at y camau canlynol, ar ôl hysbysu'r corff a ariennir:

- i. gorfodi'r gweithgarwch sy'n derbyn grant i ddod i ben a diddymu'r dyfarniad cyllid, a/neu
- ii. mynnu eich bod yn ad-dalu'r cyllid i gyd, neu ran ohono, ar unwaith, a/neu
- iii. atal pob taliad pellach yn barhaol neu dros dro, yn amodol ar unrhyw amodau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu pennu, a/neu
- iv. didynnu'r holl symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru o dan amodau'r dyfarniad o unrhyw gyllid arall a ddyfernir ichi, neu y gellir ei ddyfarnu ichi.

Canlyniadau peidio â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru

Os bydd swyddogion yn dysgu nad ydych wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru fod Digwyddiad Hysbysu wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd, bydd swyddogion yn cynnal ymchwiliad mwy trylwyr. Mae'n bosibl y bydd rhaid i'r gweithgarwch a ariennir ddod i ben, ac fe allai'r arian ddod i ben, neu gael ei adennill, o ganlyniad i ganfyddiadau'r ymchwiliad.